

Ffedereiddio ysgolion; yr ateb i osgoi cau ysgolion gwledig?

[View this post in English | Darllenwch yr erthygl yma yn Saesneg](#)

15/03/17

Ar 15 Tachwedd 2016, [cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, ei bwriad](#) i wneud newidiadau i'r [Cod Trefniadaeth Ysgolion](#). Prif amcan y newidiadau fydd cyflwyno rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, rhywbeth sydd eisoes ar waith yn yr Alban a Lloegr.

Gellir olrhain y rhagdybiaeth hon yn ôl i un o'r [blaenoriaethau ym maes addysg a gyflwynodd Kirsty Williams](#) i Brif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, cyn ymuno â Llywodraeth Cymru. Un o'r rhesymau pam nad oes rhagdybiaeth o'r fath wedi bod ar waith yng Nghymru yw nad oes diffiniad swyddogol o 'ysgol wledig' yng Nghymru, ac mae hwn yn rhywbeth arall y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn dymuno'i newid yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Byddai'r rhagdybiaeth arfaethedig hon yn golygu

- bod yn rhaid i'r achos o blaid cau ysgolion gwledig fod yn gryf; ac
- y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori'n fwy trylwyr ac ystyried mewn modd cydwybodol bob dewis arall yn hytrach na chau ysgolion, gan gynnwys **creu cysylltiadau ag ysgolion eraill. Gelwir hyn yn ffedereiddio.**



Yn ogystal â **newidiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion**, ymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd i **ddarparu £2.5 miliwn yn ychwanegol** i'r ysgolion gwledig a bach, sydd i gael eu diffinio'n fuan, o fis Ebrill 2017. Bwriad yr arian ychwanegol hwn yw 'cefnogi cydweithio rhwng ysgolion' ac ar gyfer

datblygu ffederasiynau ar draws yr holl ysgolion a gynhelir, a gwybodaeth a chanllawiau gwell ar gyfer y rheiny sy'n ystyried cydweithio a ffedereiddio.



Gallai hyn fod yn arwydd o **newid cyfeiriad** ym mholisi Llywodraeth Cymru, sydd wedi canolbwyntio yn y gorffennol ar leihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion yng Nghymru. Roedd hyn yn aml yn golygu cau ysgolion yr ystyrid nad oedd ganddynt ddigon o ddisgyblion. O ganlyniad i [Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad oddi wrth Aelod Cynulliad y Ceidwadwyr, Darren Millar](#) ym mis Gorffennaf 2016, daeth i'r amlwg fod y rhan fwyaf o'r ysgolion a gafodd eu cau yng [nghefn gwlad Cymru](#).

Beth yw ffedereiddio ysgolion?

Mae ysgolion yng Nghymru wedi gallu ffedereiddio ers 2010 pan gyflwynwyd [Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol \(Cymru\) 2010](#). Diweddarwyd y rheolau ynghylch ffedereiddio trwy basio [Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir \(Cymru\) 2014](#). Yr [ysgolion cyntaf i ffedereiddio](#) oedd Coleg Cymunedol Michaelston ac Ysgol Uwchradd Glyn Derw yng Nghaerdydd yn 2011.

Mae [canllawiau Llywodraeth Cymru ar ffedereiddio](#) yn rhoi crynodeb o'r term:

Mae'r term ffederasiwn yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae nifer o ysgolion (rhwng dwy a chwech) yn rhannu trefniadau llywodraethu ac yn meddu ar gorff llywodraethu sengl. Gall ffederasiynau gynnwys cymysgedd o ysgolion cymunedol a chymunedol arbennig sydd naill ai'n ysgolion meithrin, cynradd, arbennig neu uwchradd a gynhelir.

Fodd bynnag, o dan y Rheoliadau Ffedereiddio 2014 newydd, ni chaiff ysgolion a sefydlwyd ar sail ffydd a/neu ymddiriedolaeth, megis ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr neu ysgolion gwirfoddol a reolir, ffedereiddio ac eithrio gydag ysgolion o'r un categori neu gydag ysgolion o'r un statws ymddiriedolaeth elusennol a/neu'r un ethos crefyddol. Ni chaiff ysgolion sefydledig ffedereiddio ac eithrio gydag ysgolion sefydledig eraill.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi nad oes

unrhyw lasbrint penodol ar gyfer ffedereiddio a bydd cynllun neu weithrediad unrhyw ffederasiwn yn dibynnu'n llwyr ar amgylchiadau'r ysgolion unigol a ffocws neu ddiben eu hawydd i gydweithio.



Fodd bynnag, rhaid mai'r rheswm pwysicaf dros ystyried ffedereiddio yw'r **manteision y byddai trefniant o'r fath yn eu cyflwyno i blant** a phobl ifanc trwy gyfrwng gwell darpariaeth addysgol.

Pam ffedereiddio?

Nodwyd mewn adroddiad gan y Coleg Cenedlaethol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, o'r enw ['A study of the impact of school federation on student outcomes'](#), fod ffedereiddio ysgolion:

- wedi cael **effaith gadarnhaol ar ddeilliannau myfyrwyr**, er y gall gymryd dwy i bedair blynedd i'r effaith ddod i'r amlwg;
- yn cynnig **rhagor o adnoddau** ac o ganlyniad gyfleoedd ar gyfer newid a darparu gwasanaethau ychwanegol; ac
- yn darparu **mwyr o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol** i'r staff, yn aml am bris gostyngol, ar draws y ffederasiwn, ac ar adegau y tu hwnt i'r ffederasiwn. Mae strwythur ffederal hefyd yn hybu cyfleoedd i ysgolion gydweithredu, sy'n cael ei ystyried yn **bwysig er mwyn gwella safonau yng Nghymru**.

Er bod pob un o'r uchod yn berthnasol ac yn ganlyniadau dymunol yng Nghymru, mae ffactor arall sy'n sbarduno'r syniad o ffedereiddio, sef **nifer y lleoedd gwag** mewn ysgolion yng Nghymru.

Lleoedd gwag mewn ysgolion yng Nghymru

Cefnogwyd yr ymgyrch i leihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion gan Lywodraeth flaenorol Cymru, a argymhellodd na ddylai fod gan awdurdodau lleol **fwy na 10% o'u lleoedd yn wag** ar draws yr holl ysgolion cynradd ac uwchradd yn eu hardaloedd. Ar lefel ysgol unigol, diffinnir lefel sylweddol o **ddarpariaeth dros ben fel 25 y cant** ac o leiaf **30 o leoedd heb eu llenwi**.

Cefnogodd yr ymgyrch hon gyda'i [Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif](#) a'i Chod Trefniadaeth Ysgolion. **Roedd y Cod yn nodi** ei bod yn 'bwysig bod **cyllid ar gyfer addysg yn gosteffeithiol**'. Dywedwyd yn y Cod hefyd y byddai'n rhaid i unrhyw benderfyniad i ad-drefnu neu gau ysgol fod 'er **budd y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal**.'



Yn 2012, cyhoeddodd Estyn adroddiad o'r enw [Sut mae lleoedd dros ben yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i wario ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion?](#) Canfu'r adroddiad hwnnw fel a ganlyn:

bydd cau ysgol gynradd yn cynhyrchu arbedion posibl o £63,500 yn ogystal â £260 ar gyfer pob lle dros ben a ddiddymir. Bydd cau ysgol uwchradd yn cynhyrchu arbedion posibl o £113,000 a £510 ar gyfer pob lle dros ben a ddiddymir. [fy mhwyslais i]

Y canfyddiad yw bod y cyfuniad hwn o ffactorau wedi cyfrannu at [gau 157 o ysgolion rhwng 2006/7 a 2015/16](#) yn bennaf, mae'n ymddangos, mewn rhannau gwledig o Gymru. Er gwaethaf yr ysgolion a gaewyd, nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mewn [nodyn briffio i'w Bwyllgor Cydlynu](#), fod **cyfradd y lleoedd gwag yn 19.6 y cant yn y sector uwchradd a 14.4 y cant yn y sector cynradd erbyn 2015**, sef 3.2 y cant yn llai nag yn 2013 yn y sector cynradd. Roedd dros 40 y cant o'r lleoedd dros ben mewn ysgolion bach, sydd i'w cael yn bennaf mewn ardaloedd gwledig. [fy mhwyslais i]

Mae'n ymddangos nawr fod Llywodraeth newydd Cymru yn mynd i addasu ei hagwedd tuag at leoedd gwag, er ein bod yn dal i **aros am y manylion** a fydd yn sail i'r newid hwn. Efallai y daw'r manylion hyn i'r amlwg ar ôl cyhoeddi'r [strategaeth a'r cynllun gweithredu ar gyfer ffedereiddio a chydweithredu yng Nghymru](#).

Erthygl gan [Joseph Champion](#), Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Llun: o Pixnio gan Amanda Mills. Dan drwydded Creative Commons.

